



Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Pierhead Street
Caerdydd
CF99 1NA

20/02/2017

Annwyl Gadeirydd

Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn croesawu'r cyfle hwn i gyfrannu at yr ymchwiliad uchod.

1 Cefndir

- 1.1 Prif nod y Comisiynydd yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn trwy ddwyn sylw at y ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.
- 1.2 Mae dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd:
 - Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru;
 - Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.
- 1.3 Cyfrannir y sylwadau isod yn unol â rôl y Comisiynydd dan Adran 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i roi cyngor a chyflwyno sylwadau i unrhyw berson.

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygyymraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygyymraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org



2 Cyd-destun

- 2.1 Cydnabyddir y gall safon cymorth dysgu ychwanegol fod yn ddibynnol ar ei ddarparu yn iaith y plentyn neu'r person ifanc sydd ei angen. Gall methiant i ddarparu cymorth yn Gymraeg i'r rheini sydd ei angen amharu ar effeithiolrwydd y cymorth a gall hynny yn ei dro fod yn niweidiol i ddatblygiad a llesiant plentyn neu berson ifanc. Gan gydnabod hyn, un o amcanion strategol Strategaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg Llywodraeth Cymru (2010) oedd

'gwell cynllunio ar gyfer darpariaeth a gwasanaethau addysg cyfrwng Gymraeg i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) fel rhan annatod o ddarpariaeth addysg yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol.'

- 2.2 Mae Comisiynydd y Gymraeg yn derbyn cwynion ac ymholiadau am ddiffygion mewn addysg cyfrwng Gymraeg, gan gynnwys rhai cwynion am ddiffyg cymorth trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Deallaf bod Comisiynydd Plant Cymru wedi derbyn cwynion am hynny hefyd. Yn sgil hynny, penderfynais i a Chomisiynydd Plant Cymru gynnal ymarferiad ar y cyd i gasglu gwybodaeth gan awdurdodau lleol mewn perthynas ag addysg cyfrwng Gymraeg, gan gynnwys eu gallu i ddarparu cymorth trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Derbyniwyd ymatebion gan fwyaf yr awdurdodau a phrif ganfyddiadau'r ymchwil mewn perthynas â'r ddarpariaeth anghenion addysg ychwanegol yw:

- Nid yw'r asesiadau safonol a ddefnyddir i asesu anghenion dysgu ychwanegol ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae rhai awdurdodau lleol wedi cyfieithu rhai asesiadau ond nid yw'r cyfieithiadau wedi eu dilysu ac mae hynny'n peri pryder o ran cywirdeb canfyddiadau'r asesiadau hynny. Nid oes gan rhai awdurdodau aelodau staff sy'n medru cynnal asesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg. Dywedodd un awdurdod ei fod yn cynnal asesiadau yn Gymraeg trwy arsylwi yn unig gan nad yw'r asesiadau safonol ar gael yn Gymraeg. Ar y cyfan, mae gallu awdurdodau lleol i gynnal asesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg yn gyfyngedig.
- Mae amrywiaeth eang o ran yr adnoddau cyfrwng Gymraeg sydd gan awdurdodau lleol i gefnogi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Er enghraifft, tra bod rhai awdurdodau yn medru cynnig cymorth trwy gyfrwng y Gymraeg mewn lleoliadau arbenigol, er enghraifft uned benodol o fewn ysgol cyfrwng Gymraeg, dywedodd rhai awdurdodau nad oes ganddynt unrhyw gyfleusterau cyfrwng Gymraeg penodol o'r fath. Mae nifer o awdurdodau yn dibynnu ar ddefnyddio adnoddau sydd ar gael gan awdurdodau cyfagos a gwelwyd rhywfaint o dystiolaeth o rannu adnoddau ar lefel ranbarthol.
- Tra bod rhai awdurdodau wedi adrodd eu bod yn gallu darparu yn Gymraeg ar gyfer pob math o anghenion dysgu ychwanegol, adroddodd rhan fwyaf yr awdurdodau fethiant i ddarparu yn Gymraeg ar gyfer o leiaf rhai mathau o



anghenion. Yn benodol cyfeiriwyd at anawsterau i ddarparu yn Gymraeg ar gyfer disgyblion ag awtistiaeth, anawsterau iaith a lleferydd a phroblemau ymddygiad.

- Mae'r darlun yn gymysg o ran argaeledd ymarferwyr sy'n medru darparu cymorth trwy gyfrwng y Gymraeg. Adroddodd rhai awdurdodau bod ganddynt fynediad at ystod o ymarferwyr sy'n medru siarad Cymraeg, tra bod eraill wedi eu cyfyngu i seicolegwyr addysg â sgiliau Cymraeg yn unig. Gwelwyd rhywfaint o dystiolaeth o rannu ymarferwyr dwyieithog rhwng awdurdodau.
- Mae'r wybodaeth ynghylch iaith disgybl a gofnodir ar ddatganiadau anghenion addysg ychwanegol yn amrywio. Mae rhai awdurdodau yn cofnodi iaith gyntaf y plentyn, eraill yn cofnodi cyfrwng iaith dysgu'r plentyn, a nododd un awdurdod na chofnodir unrhyw wybodaeth am iaith y plentyn ar hyn o bryd.

2.3 Yn gyffredinol felly, mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn dangos anghysondeb yn y cymorth sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae cynllunio a gweithredu fframwaith statudol newydd ar gyfer cwrdd ag anghenion addysg ychwanegol yn gyfle i fynd i'r afael â diffygion yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.



3 Y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

- 3.1** Cyflwynodd Llywodraeth Cymru 'Fil Drafft Anghenion Addysg Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg' yn 2015 a cynhaliwyd ymgynghoriad ar y Bil hwnnw. Nid oedd y Bil hwnnw'n cynnwys unrhyw ddarpariaethau penodol yn ymwneud â'r Gymraeg. Ymatebodd nifer o bersonau gan gynnwys Comisiynydd y Gymraeg i'r ymgynghoriad hwnnw, gan amlygu'r angen am fframwaith statudol fyddai'n sicrhau darpariaeth Gymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.
- 3.2** Ymatebodd Llywodraeth Cymru'n gadarnhaol i'r sylwadau ar Fil drafft 2015. Mae'r memorandwm esboniadol a gyhoeddwyd gyda'r Bil drafft newydd yn nodi 10 nod craidd y ddeddfwriaeth. Er nad yw sicrhau darpariaeth Gymraeg yn rhan o'r nodau craidd hynny, nodir yn glir yn y memorandwm y bwriedir i'r Bil sicrhau bod sefydliadau perthnasol yn adnabod anghenion iaith plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a'u bod yn darparu'n unol â'r anghenion hynny.
- 3.3** Mae'r Bil drafft diweddaraf yn cynnwys nifer o ddarpariaethau penodol mewn perthynas â'r Gymraeg ac mae hynny i'w groesawu. Nodir isod rhai materion yn ymwneud â'r Gymraeg y mae angen eu hystyried ymhellach fel rhan o'r broses o ystyried gwelliannau i'r Bil.
- 3.4** Cyhoeddwyd 'Fersiwn Ddrafft o'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol' yn ddiweddar, i gyd-fynd â'r Bil. Nodwn mai un o egwyddorion sylfaenol y cod hwnnw yw y dylai sefydliadau gymryd pob cam rhesymol i ddarparu cymorth dysgu ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg lle fo plentyn neu berson ifanc angen hynny, ac mae hynny i'w groesawu.
- 3.5** Nodaf mai ymchwiliad i egwyddorion cyffredinol y Bil yw hwn. Cynigir isod gyfres o sylwadau ar y Bil drafft ac mae'n bosib bod rhai o'r materion penodol a godir yn mynd tu hwnt i egwyddorion cyffredinol y Bil. Os felly, hyderaf bydd y sylwadau hynny o ddefnydd wrth i'r pwyllgor ystyried y Bil mewn mwy o fanylder maes o law.



Cynlluniau Datblygu Unigol

- 3.6 Mae pennod 2 y Bil yn gosod dyletswydd ar berson fydd yn paratoi Cynllun Datblygu Unigol i *'benderfynu a ddylai darpariaeth ddysgu ychwanegol gael ei darparu yn Gymraeg'*. Os felly, gosodir dyletswydd ar y person hwnnw i bennu hynny mewn Cynllun Datblygu Unigol. Nodwn mai dyletswydd i benderfynu a ddylai'r ddarpariaeth gael ei ddarparu yn Gymraeg sydd wedi ei chynnwys yn y Bil, nid dyletswydd i benderfynu a ddylai'r ddarpariaeth gael ei ddarparu yn Gymraeg neu'n Saesneg. Gellir dadlau bod geirio'r ddyletswydd fel hyn yn gwneud darpariaeth Gymraeg yn eithriadol, hynny yw ei fod yn awgrymu mai Saesneg fydd cyfrwng iaith di-ofyn y ddarpariaeth heblaw y penderfynir y dylid darparu yn Gymraeg. Nid yw'n glir beth fyddai oblygiadau ymarferol geirio'r ddyletswydd fel hyn, os o gwbl. Er hynny, er mwyn trin y ddwy iaith yn gwbl gyfartal, awgrymw'n y dylid arall eirio'r ddyletswydd er mwyn ei wneud yn ofynnol ar bersonau perthnasol i benderfynu 'a ddylai darpariaeth ddysgu ychwanegol gael ei ddarparu yn Gymraeg neu'n Saesneg'. Byddai hynny'n osgoi unrhyw risg y byddai personau perthnasol yn ystyried mai Saesneg fydd cyfrwng iaith di-ofyn y ddarpariaeth, wrth lunio Cynllun Datblygu Unigol. Diddorol yw nodi bod geiriad rhan berthnasol y cod drafft yn wahanol yn hyn o beth:

'2.3.2 Os yw corff llywodraethu neu awdurdod lleol yn ystyried a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY, neu os yw'n paratoi CDU, dylai ystyried ai'r Gymraeg neu'r Saesneg yw'r dull cyfathrebu o ddewis y plentyn neu'r person ifanc.'

- 3.7 Ymddengys nad yw'r Bil na'r cod drafft yn cynnig arweiniad i sefydliadau perthnasol ar sut i benderfynu ar iaith y ddarpariaeth. Ni chynigir cyngor ar y materion y dylid eu cymryd i ystyriaeth wrth wneud penderfyniad ar hynny. Byddai'r materion hynny'n cynnwys, o bosib, iaith y cartref, cyfrwng iaith addysg neu ofal y plentyn neu'r person ifanc, ac yn achos plant ifanc iawn nad ydynt wedi cyrraedd oed ysgol, cyfrwng iaith yr addysg statudol y bwriedir i'r plentyn ei dderbyn yn y dyfodol. Er mwyn sicrhau bod sefydliadau perthnasol yn gwneud penderfyniadau cywir ynghylch iaith y ddarpariaeth, bydd angen iddynt dderbyn arweiniad ar sut i benderfynu ar hynny, cyn i ddarpariaethau'r Bil ddod i rym.

Swyddogaethau Atodol

- 3.8 Lle fo Cynllun Datblygu Unigol yn pennu y dylid darparu cymorth drwy gyfrwng y Gymraeg, mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar bersonau perthnasol i 'gymryd pob cam rhesymol' i sicrhau bod y cymorth wedi ei ddarparu yn Gymraeg. Nid yw hyn yn gyfystyr â gosod dyletswydd absoliwt ar ddarparwyr i ddarparu yn Gymraeg lle mai Cymraeg yw iaith y plentyn neu'r person ifanc sydd angen cymorth. Mae geirio'r ddyletswydd fel hyn yn codi cwestiwn ynghylch pwy fyddai'n penderfynu, mewn achos o anghydfod, a chymerwyd pob cam rhesymol gan ddarparwr i ddarparu yn Gymraeg a sut fyddai'r penderfyniad hwnnw'n cael ei wneud.
- 3.9 Mae adran 61 y Bil yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau rhwng cyrff addysg a phlant neu bobl ifanc



ynghylch darpariaeth cymorth dysgu ychwanegol. Cymerir y gallasai unigolyn ddefnyddio'r trefniadau hyn ar gyfer dwyn corff addysg i gyfrif am fethu darparu cymorth trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae angen sicrhau bod unigolion hefyd yn medru dwyn awdurdod lleol neu fwrdd iechyd i gyfrif am fethu â darparu cymorth trwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â gofynion y Bil.

- 3.10 Mae adran 63 y Bil yn nodi'r amgylchiadau hynny lle gall unigolyn ddwyn achos gerbron y Tribiwnlys Addysg. Mae adran honno'r Bil yn caniatáu i unigolyn ddwyn achos yn erbyn corff llywodraethu neu awdurdod lleol am fethu pennu o fewn Cynllun Datblygu Unigol yr angen am ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Ond, nid yw rhan yma'r Bil yn caniatáu i unigolyn ddwyn achos yn erbyn corff llywodraethu neu awdurdod lleol am fethu darparu cymorth trwy gyfrwng y Gymraeg, lle fo Cynllun Datblygu Unigol yn pennu y dylid darparu yn Gymraeg.
- 3.11 Felly nid yw adrannau 61 a 63 y Bil, na rhannau eraill o'r Bil, yn gosod trefn glir i ganiatáu i unigolion ddwyn sefydliadau'n atebol am fethu darparu cymorth dysgu ychwanegol trwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn achos o anghydfod ynghylch hynny, nid yw'n glir pwy fyddai'n penderfynu â yw sefydliad perthnasol wedi 'cymryd pob cam rhesymol' i ddarparu cymorth i blentyn neu berson ifanc trwy gyfrwng y Gymraeg. Ni chredaf y byddai'n rhesymol disgwyl i unigolion geisio am adolygiad barnwrol gan lys fel dull o ddatrys anghydfod o'r fath. Mae angen i'r Bil sefydlu trefn glir a hygyrch ar gyfer caniatáu i unigolyn ddwyn sefydliad yn atebol am fethu darparu cymorth addysg ychwanegol trwy gyfrwng y Gymraeg, boed y sefydliad hwnnw'n awdurdod lleol, yn fwrdd iechyd neu'n gorff addysg.
- 3.12 Mae'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft yn cyfeirio at ddyletswyddau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

'2.29 Mae'r iaith Gymraeg yn cael ei chefnogi gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Roedd y Mesur yn ailddatgan statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru, yn sefydlu'r egwyddor na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac yn darparu ar gyfer hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a safonau yn ymwneud â'r iaith Gymraeg.'

2.30 Lle bo hynny'n berthnasol, mae'n rhaid i gyrrff perthnasol sicrhau bod eu gweithgareddau neu eu gwasanaethau yn cael eu darparu yn unol â'r Safonau'r perthnasol o ran y Gymraeg. Mae'r Safonau y bydd / y mae'n ofynnol i'r cyrrff perthnasol gydymffurfio â nhw wedi'u nodi mewn hysbysiad cydymffurfio a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg.'

Nid yw'r Safonau osodwyd ar awdurdodau lleol yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn cyfeirio'n benodol at ddarparu cymorth dysgu ychwanegol. Ar ben hynny, nid oes Safonau wedi eu gosod dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ar fyrddau iechyd hyd yma. Ni fu unrhyw drafodaethau hyd yma ynghylch gosod Safonau ar gyrrff llywodraethu ysgolion. O ystyried hyn, ni chredaf bod Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn cynnig un llwybr clir y gallasai unigolion ei ddilyn bob amser er mwyn dwyn



sefydliadau perthnasol yn atebol am fethu â darparu cymorth dysgu ychwanegol trwy gyfrwng y Gymraeg.

- 3.13 Cyfeirir yn y cod drafft hefyd at ddyletswyddau awdurdodau lleol dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth (Cymru) 2013 i baratoi Cynlluniau Strategol y Gymraeg Mewn Addysg. Mae'r canllawiau statudol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn unol â gofynion y ddeddf honno yn gosod disgwyliad ar awdurdodau lleol i gynnwys mesurau o fewn eu cynlluniau strategol ar gyfer gwella'r ddarpariaeth o gymorth addysg ychwanegol cyfrwng Cymraeg. Ond, nid yw fframwaith statudol y ddeddf honno ychwaith yn cynnig trefn glir a hygyrch i ganiatáu i unigolion ddwyn awdurdodau lleol yn atebol am fethu darparu cymorth dysgu ychwanegol trwy gyfrwng y Gymraeg.
- 3.14 Mae angen mynd i'r afael â'r mater hwn ar fyrder. Heb drefn statudol glir a hygyrch ar gyfer dwyn sefydliadau'n atebol am fethu darparu cymorth dysgu ychwanegol trwy gyfrwng y Gymraeg, bydd llai o bwysau ar ddarparwyr i sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd yn y Bil i gymryd 'pob cam rhesymol' i ddarparu yn Gymraeg.

Materion penodol eraill

- 3.15 Mae adran 54 y Bil yn gosod dyletswydd ar gyfrif llywodraethu ysgolion i ddynodi person neu bersonau yn 'Gydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol'. Yn yr un modd mae adran 55 y Bil yn gosod dyletswydd ar fyrddau iechyd i ddynodi 'Swyddogion Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig'. Ymddengys y bydd swyddogaethau'r personau hyn yn arwain at gyswllt cyson â phlant a phobl ifanc a'u rhieni. Os felly, bydd angen sicrhau bod y personau hyn yn medru cyflawni eu swyddogaethau trwy gyfrwng y Gymraeg lle fo angen gwneud hynny. Bydd gan gyfrif llywodraethu ysgolion bolisiau ar recriwtio fydd yn ymdrin â'r angen am staff sy'n medru siarad Cymraeg. Bydd gan fyrddau iechyd gynlluniau datblygu gweithlu fydd yn ymdrin â'r angen am staff dwyieithog. Er hynny, er mwyn sicrhau bod y personau a ddynodir i'r swyddi hyn yn medru siarad Cymraeg lle fo angen hynny, byddai'n ddefnyddiol pe bai'r Llywodraeth yn cynnig arweiniad ar yr angen i ddynodi unigolion dwyieithog i'r swyddi hyn, gan gymryd i ystyriaeth materion megis cyfrwng iaith yr ysgol, a'r angen i ddeiliaid y swydd allu cyfathrebu â phlant, pobl ifanc a rhieni ac â sefydliadau eraill yn Gymraeg.
- 3.16 Mae Adran 60 y Bil yn ymwneud â 'darparu nwyddau neu wasanaethau mewn perthynas â darpariaeth ddysgu ychwanegol'. Nodir yn adran 60(2) y caiff rheoliadau ddarparu ar gyfer y telerau a'r amodau y caniateir i nwyddau a gwasanaethau gael eu cyflenwi yn unol â hwy. Byddai'n ddefnyddiol derbyn eglurder gan y Llywodraeth ar y mathau o nwyddau neu wasanaethau y gellid bod angen eu darparu gan awdurdodau lleol i bersonau perthnasol. Mae'n bosib y dylai adran 60(2) y Bil ganiadau i reoliadau bennu'r angen i awdurdodau lleol gyflenwi nwyddau neu wasanaethau Cymraeg i bersonau perthnasol.



3.17 Mae adran 62 y Bil yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaeth eirioli annibynnol ar gyfer plentyn neu berson ifanc mewn achos o anghydfod sydd gerbron y tribiwnlys. Lle mai Cymraeg yw iaith y plentyn neu'r person ifanc, bydd angen i'r gwasanaeth eirioli fod ar gael yn Gymraeg. Nid yw'r Bil yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu'r gwasanaeth eirioli yn Gymraeg lle fo angen hynny. Nid yw'r dyletswyddau a osodwyd ar awdurdodau lleol yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn cyfeirio'n benodol at wasanaethau eirioli. Bydd angen sicrhau bod awdurdodau lleol yn darparu gwasanaethau eirioli yn unol â gofynion y Bil hwn trwy gyfrwng y Gymraeg, lle bo angen hynny.

Tribiwnlys Addysg Cymru

3.18 Mae'r Bil yn newid enw Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru i Dribiwnlys Addysg Cymru ac yn darparu ar gyfer paratoi rheoliadau ar weithdrefnau'r Tribiwnlys Addysg.

3.19 Bydd plant a phobl ifanc sydd ag anghenion addysg ychwanegol yn rhan o'r mwyafrif o achosion ddaw gerbron y Tribiwnlys Addysg, os nad pob achos. Mi fydd yn hanfodol sicrhau bod y plant a'r bobl ifanc hynny yn medru defnyddio'r Gymraeg yn ystod gwrandawiadau'r tribiwnlys os bydd angen. Golyga hynny siarad Cymraeg a chlywed y Gymraeg yn ystod gwrandawiadau. Er enghraifft, pe bai aelodau'r tribiwnlys yn holi cwestiynau i siaradwr Cymraeg ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, dylid caniatáu i'r person ifanc glywed y cwestiynau yn Gymraeg yn ogystal â'u hateb yn Gymraeg. Wrth gytuno ar y trefniadau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gwrandawiadau'r tribiwnlys, dylid ystyried priodoldeb defnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn rhai amgylchiadau. Er enghraifft, lle bo aelodau'r tribiwnlys yn holi cwestiynau i blentyn sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, a lle mai Cymraeg yw iaith y plentyn neu'r person ifanc, dylid ystyried i ba raddau y byddai'n briodol i hwyluso'r cyfathrebu hwnnw trwy gyfieithu ar y pryd, ynteu a ddylai'r aelodau fedru cyfathrebu yn Gymraeg eu hunain. Mae'n debyg y bydd tribiwnlysoedd Cymru eisoes wedi ymdrin â'r materion hyn ac y bydd arfer da wedi ei sefydlu i'r Tribiwnlys Addysg ei ddilyn.

4 Crynodeb

4.1 Mae'r Bil hwn yn ymwneud â maes lle fo darparu yn unol ag anghenion iaith unigolion yn gwbl allweddol i safon ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth dan sylw. Mae cwynion a gyflwynwyd i Gomisiynydd y Gymraeg yn dangos y gall methiant i ddarparu cymorth dysgu ychwanegol trwy gyfrwng y Gymraeg gael effaith niweidiol ar les plant a phobl ifanc.

4.2 Mae ymchwil a gynhaliwyd ar y cyd rhyngof i a Chomisiynydd Plant Cymru yn dangos anghysondeb yn y ddarpariaeth cymorth dysgu ychwanegol y mae awdurdodau lleol Cymru yn medru ei gynnig trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Bil hwn yn cynnig cyfle i fynd i'r afael â hynny.



- 4.3 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn gadarnhaol i sylwadau ar y Bil drafft a gyhoeddwyd yn 2015 trwy gynnwys o fewn y Bil drafft newydd nifer o ddarpariaethau penodol ar gyfer y Gymraeg. Ar yr un pryd, mae nifer o faterion yn ymwneud â'r Gymraeg sydd angen eu hystyried ymhellach wrth barhau i ddatblygu'r Bil ac wrth roi'r Bil ar waith trwy reoliadau a chanllawiau. Yn fwy na dim arall efallai, mae angen sicrhau trefn glir ar gyfer caniatáu i unigolion ddwyn sefydliadau perthnasol yn atebol am fethu darparu cymorth dysgu ychwanegol trwy gyfrwng y Gymraeg.
- 4.4 Hyderaf bydd y sylwadau uchod o ddefnydd wrth i'r pwyllgor graffu ar y Bil. Edrychaf ymlaen at gyfle i drafod y sylwadau hyn gyda'r pwyllgor yn fuan.

Yr eiddoch yn gywir,

Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg